OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 529 (Cy. 112)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Ebrill 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *5 Mai 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 21B(8) o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Yn unol ag adran 21B(10) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mai 2017.

### Pennu'r weithdrefn ar gyfer achosion penodol

**2.**—(1) Mae adran 21B(7) o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(c) an appeal to the Welsh Ministers under section 174 of the principal Act(**2**) (appeal against enforcement notice) as applied by regulation 16 of, and Part 1 of Schedule 4 to, the Planning (Hazardous Substances) (Wales) Regulations 2015 (S.I. 2015/1597 (W. 196)) (appeals against hazardous substances contravention notices)."

(**1**) 1990 p. 10. Mewnosodwyd adran 21B gan erthygl 2(3) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/2773 (Cy. 280)).

(**2**) I gael y diffiniad o "the principal Act" *gweler* adran 39(1) o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.

*Jane Hutt*
5 Ebrill 2017 — Un o Weinidogion Cymru

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y rhestr o achosion y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru bennu'r weithdrefn mewn cysylltiad â hwy. Gall y weithdrefn fod ar ffurf ymchwiliad lleol, gwrandawiad neu sylwadau ysgrifenedig, neu unrhyw gyfuniad o'r tair ffurf honno y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol. Effaith y Gorchymyn yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu'r weithdrefn mewn cysylltiad ag apelau yn erbyn hysbysiadau tramgwydd sylweddau peryglus.

Lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r offeryn hwn. Gellir cael copïau oddi wrth yr Arolygiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru.